YSGOL GYNRADD NEFYN

Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA
(01758) 720 765 – e-bost – pennaeth@nefyn.gwynedd.sch.uk

Pennaeth – Mrs Glenys Williams
Dirprwy Bennaeth – Mrs Judith Owen
Cadeirydd – Mr Gruff Morris
Is- gadeirydd – Mrs Ffion Hughes

Llythyr Caniatad

Teithiau Lleol
Fel pob blwyddyn rydym yn gofyn eich caniatad ar ddechrau blwyddyn addysgol fel hyn i alluogi'r ysgol i fynd a'ch plentyn allan o'r ysgol i ymgymryd a gweithgareddau cwricwlaidd lleol. Gall hyn gynnwys cerdded i fynd i wneud gwaith maes, mynd ar daith natur, ymweld a'r eglwys neu'r capel neu mynd i fraslunio o amgylch y pentref. Weithiau bydd hyn yn golygu taith fer leol mewn bws neu fws mini. Gofynnwn i chi hefyd gytuno i ni fynd a'ch plentyn mewn bws i'r ganolfan hamdden ym Mhwllheli yn wythnosol.

Yn hytrach na gyrru llythyr allan bob tro y bydd un o'r gweithgareddau yma yn digwydd gofynnwn i chi arwyddo isod er mwyn rhoi caniatad ar gyfer y math yma o weithgareddau am y flwyddyn addysgol gyfan.

A fyddech cystal ag arwyddo isod os ydych am roi eich caniatad?

Byddwn wrth gwrs yn gofyn am ganiatad benodol i fynd ar daith bellach neu daith y credwn ei bod yn anarferol. 'Rydym yn asesu risg pob taith cyn cychwyn.

Ffotograffau
Weithiau bydd y papurau lleol yn dod i'r ysgol i dynnu lluniau o'r plant yn gweithio neu dimau ysgol neu unigolion yn derbyn gwobrau ac ati. Bydd yr ysgol hefyd weithiau yn defnyddio lluniau o'r plant, yn ddi-enw, ar safle we'r ysgol neu mewn dogfennau. Hoffwn wneud yn siwr eich bod yn hapus i hyn ddigwydd drwy arwyddo isod.

Rhyngrwyd
Mae'r rhyngrwyd yn cael ei ddefnyddio yn aml gan y plant yn yr ysgol i chwilio am wybodaeth ac i gynhyrchu gwaith.
Mae rhyngrwyd yr ysgol yn cael ei redeg drwy system ffiltro Gwynedd sy'n gwneud y rhyngrwyd yn llawer saffach na'r mynediad yn y mwyafrif o gartrefi ond fel pob system yn methu ambell i safle neu ddelwedd amheus. Bydd yr ysgol, fel rhan o gwricwlwm newydd 2008 yn addysgu'ch plentyn am beryglon defnyddio'r we ac i beidio a rhannu gwybodaeth bersonol am eu hunain.

Hoffem i chi gadarnhau eich caniatad i'ch plentyn ddefnyddio'r we yn yr ysgol drwy eto arwyddo isod.

Rhoddaf ganiatad i'r ysgol:

- **fynd a fy mhlentyn ar deithiau lleol tu allan i gyffuniau'r ysgol yn ystod y flwyddyn**
- **adael i fy mhlentyn ddefnyddio'r rhyngrwyd yn yr ysgol**
- **ddefnyddio lluniau priodol o fy mhlentyn yn y wasg leol ac ar safle we'r neu ddogfennau ysgol**

Enw'r Plentyn / Plant: _____

Arwyddwyd: _____ (Rhiant/Gwarchodwr) _____ (Dyddiad)

*Os ydych yn ansicr ynglyn a chytuno i unrhyw agwedd o'r uchod cysylltwch gyda'r ysgol